

2011 Rhif (Cy.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A48 (Cas-gwent, Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2011

Gwnaed 22 Chwefror 2011

Yn dod i rym 25 Chwefror 2011

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Llundain i Abergwaun (yr A48) (y cyfeirir ati wedi hyn fel “y gefnffordd”), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 84(1) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) (“Deddf 1984”) ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu dros Heddlu Gwent, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 25 Chwefror 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A48 (Cas-gwent, Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2011.

2. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn hwnnw o'r gefnffordd yng Nghas-gwent yn Sir Fynwy sy'n ymestyn o bwynt 124 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o bwynt canol ei chyffordd ag Upper Church Street hyd at y ffin rhwng Cymru a Lloegr, sef y pwynt hwnnw ar bont yr Afon Gwy sy'n cyd-fynd â phwynt canol yr Afon Gwy.

Llofnodwyd ar ran y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 22 Chwefror 2011

J COLLINS

Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyflenwi Seilwaith
Llywodraeth Cynulliad Cymru

(1) 1984 p.27; Yn lle adran 84(2) rhoddwyd Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22), adran 168 ac Atodlen 8, paragraff 61. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A48 (CAS-
GWENT, SIR FYNWY) (TERFYN CYFLYMDER
50 MYA) 2011**

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 84(1) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd a ddaw i rym ar 25 Chwefror 2011.

Effaith y Gorchymyn yw gosod terfyn cyflymder o 50 mya ar y darn hwnnw o Gefnffordd Llundain i Abergwaun (yr A48) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”) yng Nghas-gwent yn Sir Fynwy sy’n ymestyn o bwynt 124 o fetrau i’r gogledd-ddwyrain o bwynt canol ei chyffordd ag Upper Church Street hyd at y ffin rhwng Cymru a Lloegr, sef y pwynt hwnnw ar bont yr Afon Gwy sy’n cyd-fynd â phwynt canol yr Afon Gwy.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 24 Chwefror 2011, gellir archwilio copi o’r Gorchymyn, ynghyd â’r plan cysylltiedig yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau agor arferol yn Siop Un Stop Cyngor Sir Fynwy, Lower Wye, Manor Way, Cas-gwent neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o’r cyfeiriad isod gan ddyfynnu’r cyfeirnod CZ510-2-11-qA872865/1.

Gellir gweld copi o’r Gorchymyn a’r Hysbysiad ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn: www.cymru.gov.uk (detholer: ‘Deddfwriaeth/Deddfwriaeth mewn grym/ Offerynnau Statudol Lleol/Gorchymynion Traffig Parhaol/2011’).

Gellir cael copi print bras o’r Hysbysiad hwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Yr Is-adran Cynllunio a Llywodraethu Trafnidiaeth 3, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL

Yr Is-adran Cynllunio a Llywodraethu Trafnidiaeth
Llywodraeth Cynulliad Cymru